

# Gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru: 2023

Ebrill 2024

## 1. Cyflwyniad

- Ar ddechrau'r Chweched Senedd, cytunodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) i wneud gwaith craffu blynyddol ar Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn).
- Dyma ail adroddiad y Pwyllgor ar y Comisiwn. Mae'n canolbwyntio ar Adroddiad Blynyddol 2022-23 y Comisiwn ac yn adeiladu ar y farn a fynegwyd yn ein hadroddiad cyntaf (Mawrth 2023).
- Ar 31 Ionawr 2024, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyda Dr David Clubb, Cadeirydd y Comisiwn, a Dr Jenifer Baxter, Dirprwy Gadeirydd. Rydym yn ddiolchgar am eu presenoldeb a'u cydweithrediad parhaus.



## 2. Rôl, cylch gwaith a ffyrdd o weithio

4. Sefydlwyd y Comisiwn yn 2018 fel corff cynghorol annibynnol, anstatudol i Weinidogion Cymru. Ei ddiben yw asesu anghenion seilwaith economaidd ac amgylcheddol Cymru dros y 5-80 mlynedd nesaf.<sup>1</sup>
5. Mae'r Comisiwn presennol wedi'i benodi am gyfnod tair blynedd o 2021-22 i 2024-25. Mae'n cynnwys y Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a chwe Chomisiynydd, gan ei gwneud yn llai o ran maint na'i ragflaenydd, yr oedd ganddo 12 aelod. Darperir cymorth ysgrifenyddiaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
6. Cafodd llythyr cylch gwaith y Comisiwn ei ddyroddi ym mis Ebrill 2022 ac mae'n cwmpasu tymor y Llywodraeth hon. Mae'n nodi dau faes penodol i'r Comisiwn ganolbwyntio arnynt: ynni adnewyddadwy; a gwrthsefyll llifogydd a newid hinsawdd.

### Annibyniaeth

7. Yn ystod gwaith craffu blaenorol ar y Comisiwn, holodd y Pwyllgor Dr Clubb am annibyniaeth y Comisiwn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y mater hwn ymhellach yn ei sesiwn graffu ddiweddaraf. Pwysleisiodd Dr Clubb, er bod y Comisiwn yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, ei fod yn gwbl annibynnol. Esboniodd fel y ganlyn:

*“we have editorial independence in that, everything that we say and that we do, we manage ourselves...we're sometimes aware of Welsh Government opinion, which is fed to us through various channels. We don't bend to accommodate that opinion.”*

8. Gofynnodd y Pwyllgor i Dr Clubb a allai rôl y Comisiwn gael ei chyflawni gan adran gwasanaeth sifil yn Llywodraeth Cymru. Er y cydnabu Dr Clubb y byddai'n bosibl cyflawni amcanion y Comisiwn yn fewnol, tynnodd sylw at fanteision annibyniaeth. Dywedodd nad yw'r Comisiwn yn ddarostyngedig i ddiwylliant Llywodraeth na dictad gweinidogol. Datganodd Dr Clubb eu bod yn credu eu bod yn cyflawni rôl sy'n wahanol i rôl Llywodraeth Cymru.

---

<sup>1</sup> Pan gafodd y Comisiwn ei sefydlu yn y lle cyntaf, roedd yn canolbwyntio ar anghenion seilwaith dros gyfnod 5-30 mlynedd. Yn dilyn argymhelliad gan Dr Clubb, Cadeirydd y Comisiwn presennol, diwygiodd Llywodraeth Cymru Gylch Gorchwyl y Comisiwn i estyn hyn i gyfnod 5-80 mlynedd.

## Rheoli gwrthdaro buddiannau posibl

**9.** Ym mis Tachwedd 2023, adroddwyd yn y cyfryngau y codwyd pryderon gyda Llywodraeth Cymru ynghylch rhan Comisiynydd mewn asiantaeth materion cyhoeddus yr oedd ei chleientiaid diweddar wedi cynnwys datblygwyr ynni adnewyddadwy. Cyfeiriodd yr adroddiad yn y cyfryngau at y ffaith bod y Comisiynydd dan sylw wedi rhoi tystiolaeth i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Bil Seilwaith (Cymru).

**10.** Wrth gael ei holi gan y Pwyllgor ar yr uchod, awgrymodd Dr Clubb nad yw'r erthygl yn hollol wrthrychol ac nad oedd yn ceisio portreadu barn gwbl gytbwys. Esboniodd yr ymchwiliwyd i'r mater, gan ychwanegu, o'i ran ef, fod y Comisiynydd wedi'i glirio. Nid oes problem gydag ef na neb arall.

**11.** Dywedodd Dr Clubb y byddai, yn ôl pob tebyg, yn anodd i'r Comisiwn ddod o hyd i bobl ag amrywiaeth eang o sgiliau pe bai'n penderfynu eu diystyru ar sail gwrthdaro buddiannau a oedd ganddynt yn y gorffennol neu unrhyw wrthdaro posibl yn y dyfodol. Ychwanegodd na fyddai wedi gallu cael ei benodi os ystyriwyd bod ei fuddiant mewn ynni adnewyddadwy neu unrhyw un o'r pethau eraill y mae'n gweithio arnynt yn rhwystr.

**12.** Pwysleisiodd Dr Clubb ei bod yn ofynnol i aelodau'r Comisiwn beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau lle y gallai gwrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau tybiedig, godi. Er enghraifft, esboniodd Dr Baxter ei bod wedi arwain ar waith y Comisiwn ar ynni adnewyddadwy oherwydd rôl Dr Clubb yn Afallen. Darparodd Dr Clubb enghraifft hefyd lle nad oedd wedi mynd i gyfarfod yn Aberdaugleddau yr oedd datblygwyr ynni adnewyddadwy yn bresennol ynddo.

**13.** Esboniodd Dr Clubb fod y gofrestr buddiannau ar gyfer Comisiynwyr, sy'n cael ei chyhoeddi ar-lein, yn cael ei ddiweddarau pan fydd newidiadau'n digwydd. Dywedodd fod hyn yn mynd ymhellach na'r gofyniad rheoleiddiol ar gyfer diweddariad blynyddol ac awgrymodd fod hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i arfer da presennol.

## Telerau penodi

**14.** Gofynnodd y Pwyllgor i Dr Clubb a yw cyfnod penodi tair blynedd yn ddigonol wrth gadeirio sefydliad sy'n edrych tua'r dyfodol. Dywedodd nad oedd bod yn ystyried y peth yn broblemus, gan ychwanegu nad yw'n meddwl ei fod yn anghyson â'r arfer safonol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus eraill sy'n cael eu

rheoleiddio. Er gwaethaf hyn, dywedodd Dr Clubb ei fod yn debygol o ofyn am estyniad bach i'w benodiad, ac i benodiad aelodau eraill o'r Comisiwn, er mwyn sicrhau y gall y Comisiwn gwblhau ei raglen waith.

**15.** Esboniodd Dr Clubb y gallai, yn ddamcaniaethol, ailymgeisio am benodiad, ond ychwanegodd fod ganddo ddiddordeb mawr yn y syniad bod pobl eraill â syniadau newydd yn dod i mewn.

## Cyllideb y Comisiwn

**16.** Dyrannwyd cyllideb benodol gwerth £400,000 i'r Comisiwn am y tro cyntaf yn 2022-23. Mae ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2022-23 yn dangos y gwariodd y Comisiwn £370,500. Mae'n nodi sut y cafodd hyn ei ddyrannu ar draws ei weithgareddau, gan gynnwys £198,700 ar gyfer ei brosiect ynni adnewyddadwy a £92,000 ar ffioedd a threuliau'r Comisiynwyr.

**17.** Pennwyd cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2023-24 ar £400,000. Yn ôl Adroddiad Blynyddol 2022-23, mae'r Comisiwn wedi dyrannu £210,000 ar gyfer ei waith ar lifogydd ac i helpu i baratoi ar gyfer ei waith ym mlwyddyn tri.

**18.** Gofynnodd y Pwyllgor i Dr Clubb am ei farn am gyllideb ddisgwyliedig y Comisiwn ar gyfer 2024-25. Dywedodd Dr Clubb, yn ystod trafodaethau diweddar â Llywodraeth Cymru y rhoddwyd digon o gysur iddo na fyddai'r gyllideb yn cael ei haneru, na fyddai'n cael ei lleihau'n sylweddol, hyd yn oed os bydd gostyngiad. Dywedodd hefyd y byddai'r Comisiwn yn gweithio o fewn pa gyllideb bynnag a fydd yn cael ei rhoi.

**19.** Yn ystod gwaith craffu blaenorol ar y Comisiwn, holodd y Pwyllgor Dr Clubb ar werth am arian y Comisiwn. Cydnabu Dr Clubb fod angen i'r Comisiwn ddangos ei fod, ar y cyfan, yn arbed mwy i gymdeithas Cymru na chyllideb y comisiwn bob blwyddyn ar gyfer y dyfodol. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y cwestiwn gwerth am arian yn ei sesiwn graffu ddiweddaraf. Wrth ymateb, dywedodd Dr Clubb, "os ydy'r Llywodraeth yn derbyn rhai o'r awgrymiadau allan o'r adroddiad ynni adnewyddadwy, rŷn ni'n gobeithio cael lot mwy o werth yn aros yng Nghymru." Atseiniodd Dr Baxter y pwynt hwn, gan ddweud y byddai'r Comisiwn yn bendant yn arbed yn sylweddol fwy i Gymru na'r hyn y mae gan y comisiwn gyllideb ar ei gyfer. Ychwanegodd fel a ganlyn:

*"When it comes to value for money, one of the things that we often find when we're commissioning reports is that initially people might come forward with similar ideas to previous reports...and so we have been able to make sure that we are*

*looking under our values of areas that are more radical, are going to cause more distinct change, more innovation...We do know that that does exist in the reports that we produce.*

## Monitro'r canlyniadau

**20.** Yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021-22, nododd y Comisiwn y canlyniadau y mae'n disgwyl eu cyflawni o ganlyniad i'w waith, gan gynnwys

- polisi yn y dyfodol sy'n gwella'r broses o gipio cyfoeth o ynni adnewyddadwy; sy'n rheoli tir yn well at ddibenion seilwaith amrywiol; ac sy'n adeiladu ar ddealltwriaeth well o safbwyntiau cymunedau lleol;
- polisi ac arfer yn y dyfodol sy'n fwy gwybodus am ffyrdd o leihau effaith llifogydd ar gymunedau a seilwaith Cymru;

**21.** Amlinellodd Dr Clubb fod y Comisiwn wedi datblygu system i olrhain cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau uchod. Mae tabl sy'n crynhoi cynnydd wedi'i gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2022-23. Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar gamau gweithredu/allbynnau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei raglen waith.

**22.** Esboniodd Dr Clubb y byddai gweithredu argymhellion y Comisiwn ar ynni adnewyddadwy (gweler Pennod 3) yn cael ei ddefnyddio fel rhagor o brawf bod canlyniadau'n cael eu cyflawni.

**23.** Cyfeiriodd Dr Clubb at ei ymrwymiad i adolygu canlyniadau adroddiadau'r Comisiwn, o leiaf am gyfnod. Esboniodd fod y Comisiwn eisoes wedi adolygu adroddiad ei ragflaenydd, [Seilwaith Cyfathrebu Digidol yng Nghymru](#) (Rhagfyr 2020). Ychwanegodd mai eu disgwyliad yw, yn y blynyddoedd i ddod, y bydd comisiynau'r dyfodol hefyd am adolygu'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion a wnaed.

## Ein barn ni

### Materion gweithredol

Yn ddiweddar, mae'r cyfryngau wedi bod o yn craffu ar y Comisiwn, gyda chwestiynau'n cael eu codi am rolau deul Comisiynwyr a sut y rheolir gwrthdaro buddiannau.

Er mwyn i'r Comisiwn gyflawni ei rôl yn effeithiol, mae'n bwysig bod gan y Comisiynwyr lefel briodol o wybodaeth ac arbenigedd am y sectorau seilwaith amrywiol. Felly, mae'n ddealladwy, y bydd cwestiynau'n cael eu codi o bryd i'w gilydd am wrthdaro buddiannau canfyddedig. Nodwn sylwadau Dr Clubb, pe bai unigolion wedi'u diystyru rhag eu penodi ar sail gwrthdaro buddiannau posibl, neu wrthdaro buddiannau yn y dyfodol, y buasai cronfa fach o ymgeiswyr i ddewis ohoni.

Mae bod yn agored ac yn dryloyw ynghylch buddiannau ariannol a phersonol Comisiynwyr yn allweddol i ddiogelu uniondeb y corff a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd. Rydym yn nodi bod arfer presennol y Comisiwn, sef diweddarau'r gofrestr buddiannau'n barhaus, yn mynd y tu hwnt i'r gofynion cyfreithiol presennol. Mae hyn i'w ganmol.

Mae'n hanfodol bod gan y Comisiwn drefniadau cadarn ar waith i sicrhau y rheolir gwrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau canfyddedig, yn briodol. Nodwn ei bod yn ofynnol i Gomisiynwyr beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau lle y gallai eu buddiant awgrymu risg o ragfarn. Rhoddodd Dr Clubb enghreifftiau penodol o sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol. Rydym yn ceisio sicrwydd gan y Comisiwn bod y gofyniad hwn yn cael ei fodloni'n gyson a'i fonitro'n effeithiol.

### **Telerau penodi**

Penodir y Comisiynwyr am gyfnod 3 blynedd. Mae hyn yn llawer byrrach nag ar gyfer penodiadau cyhoeddus eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, 7 mlynedd yw cyfnod penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Comisiynydd Plant, a 5 mlynedd yw cyfnod Comisiynwyr Seilwaith Cenedlaethol y DU yn ond gellir adnewyddu'r penodiad hyd at 10 mlynedd. Er gwaethaf honiad Dr Clubb nad yw cyfnod penodi 3 blynedd yn broblemus, mae'n ystyried gofyn am estyniad i'r holl Gomisiynwyr er mwyn sicrhau y gall y Comisiwn gwblhau ei raglen waith.

Credwn fod gwerth estyn y cyfnod penodi tair blynedd i Gomisiynwyr.

### **Dangos gwerth am arian**

Yn 2022-23, cafodd y Comisiwn gyllideb gwerth £400,000. Er ei fod yn gymedrol o'i gymharu â chyrrff tebyg, nid yw hyn yn ddibwys o ran gwariant cyhoeddus. Felly, mae'n bwysig y gall y Comisiwn ddangos gwerth am arian.

Yn ein hadroddiad cyntaf, gwnaethom ddod i'r casgliad y byddai'n rhy gynnar i fesur effaith gwaith y Comisiwn. Ar hyn o bryd, yr un farn sydd gennym – mae'n

rhy gynnar o hyd i benderfynu sut y mae gwaith y Comisiwn yn dylanwadu ar syniadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn bwriadu edrych ar y mater hwn eto yn ystod ein sesiwn graffu nesaf, wedi'i llywio gan ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ar ynni adnewyddadwy.

Roedd yn galonogol i ni glywed bod y Comisiwn wedi sefydlu system i fonitro faint o'i argymhellion sy'n cael eu derbyn. Fodd bynnag, nid yw derbyn argymhellion, ynddo'i hun, yn fesur uniongyrchol o lwyddiant. Fel y cydnabu Dr Clubb, dim ond os caiff argymhellion y Comisiwn eu gweithredu y bydd newid yn cael ei gyflawni. Gosododd cylch gorchwyl y Comisiwn fandad clir i'r Comisiwn, sef “dwyn y llywodraeth i gyfrif am gyflawni unrhyw argymhellion NICW y cytunodd i'w datblygu”. Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar sut y mae'r Comisiwn yn cyflawni'r mandad hwn yn ystod ein sesiwn graffu nesaf.

### **Y camau nesaf i'r Comisiwn?**

Mae'r Comisiwn yn cyflawni swyddogaeth bwysig, gan roi safbwynt allanol i Lywodraeth Cymru ar anghenion seilwaith tymor hir Cymru, na ellir eu cael fel arall o'r ffynonellau presennol. Mae'r Comisiwn presennol yn cynnwys arbenigwyr sy'n dangos ymroddiad i'w gwaith, ac angerdd amdano. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn fach ac mae ganddo adnoddau cyfyngedig, yn enwedig o'i gymharu â chyrrff â swyddogaethau tebyg, er enghraifft, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU.

Sefydlwyd y Comisiwn yn wreiddiol bron chwe blynedd yn ôl, felly mae'n dal i fod mewn cyfnod eginol. Serch hynny, credwn y byddai nawr yn amser da i bwysu a mesur, ac ystyried a yw'n cyflawni disgwyliadau. Rydym yn awyddus i bwysleisio nad beirniadaeth o'r Comisiynwyr yw hyn. Yn hytrach, mae'n ymwneud â sicrhau y bydd y model presennol yn galluogi'r Comisiwn i gyflawni ei botensial llawn dros y blynyddoedd i ddod. Nodwn fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i gynnal “adolygiad cynhwysfawr o'i statws, ei gylch gwaith a'i amcanion o leiaf unwaith bob 5 mlynedd”. Disgwylir yr adolygiad cyntaf eleni. Rydym yn disgwyl i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn gael eu defnyddio i lywio'r adolygiad.

Nid yw'n glir pa amserlen y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag ati ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch y mater hwn.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni ei hymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o statws, rôl ac amcanion y Comisiwn cyn diwedd 2024.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r sectorau seilwaith amrywiol a rhanddeiliaid perthnasol eraill er mwyn llywio'r adolygiad.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen y mae'n gweithio tuag ati ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Os yw'n annhebygol y bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau cyn diwedd 2024, dylai esbonio'r rheswm.

**Argymhelliad 3.** Fel rhan o adolygiad Llywodraeth Cymru o statws, rôl ac amcanion y Comisiwn, dylai ystyried yr achos dros estyn cyfnod penodi Comisiynwyr fel ei fod yn cyd-fynd yn well â phenodeion cyhoeddus eraill.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Comisiwn ymrwymo i sicrhau bod y gofyniad i Gomisiynwyr beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau neu benderfyniadau pan allai gwrthdaro buddiannau, neu wrthdaro buddiannau canfyddedig, godi yn cael ei fodloni'n gyson. Dylai hefyd ymrwymo i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i fonitro cydymffurfedd â'r gofyniad



### 3. Ail flwyddyn y Comisiwn

**24.** Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn nodi, er mai 2022-23 yw ail flwyddyn y Comisiwn yn ei gyfnod tair blynedd, mai hon yw blwyddyn gyflawni iawn gyntaf y Comisiwn.

**25.** Wrth fyfyrion ar yr hyn a gyflawnwyd yn 2022-23, dywedodd Dr Clubb wrth y Pwyllgor fod y Comisiwn wedi bod yn "brysur iawn". Esboniodd fod y Comisiwn, yn ogystal â chwblhau ei brosiect ar ynni adnewyddadwy (a drafodir yn ddiweddarach yn y bennod hon), wedi ymgymryd â gwaith ar yr adolygiad ffyrdd, bioamrywiaeth drefol, Nodyn Cyngor Technegol 15, a materion grid, ymhlith materion eraill.

**26.** Ychwanegodd Dr Clubb fod y Comisiwn wedi cwblhau sawl 'taith astudio' ar draws Cymru "i drïo ffeindio mas beth sy'n digwydd gyda seilwaith mewn llefydd gwahanol, gan gynnwys llyfogydd yn y gogledd ac ynni adnewyddadwy yn y canolbarth, a gyda'r porthladd yn sir Benfro". Yn ogystal, rhoddodd y Comisiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor ar y Bil Seilwaith (Cymru), wedi'i llywio gan ddigwyddiad rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar y cyd â'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

#### Cynnydd tuag at gyflawni'r rhaglen waith

**27.** Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gwblhau tri phrif brosiect yn ystod ei gyfnod tair blynedd: ynni adnewyddadwy (2022-23), llyfogydd (2023-24) a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth (2024-25). Cafodd y ddau brosiect cyntaf eu cynnwys yn llythyr cylch gwaith y Comisiwn ac roeddent yn ymrwymadau i'w rhoi ar waith yng Nghytundeb Cydweithio 2021. Trafodwyd y trydydd prosiect a chytunwyd arno'n fewnol gan y Comisiwn.

#### Ynni adnewyddadwy

---

**28.** Yn ystod cyfnod adrodd 2022-23, cwblhaodd y Comisiwn ei brosiect ar ynni adnewyddadwy a chyhoeddi ei adroddiad, sef [Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050](#), ym mis Hydref 2023.

**29.** Mae'r adroddiad yn esbonio y canolbwyntiodd y Comisiwn ar dri maes y nodwyd eu bod yn fylchau yn y gweithgarwch presennol lle y gallai "ychwanegu gwerth" drwy ymchwiliad pellach. Dyma hwy:

- cipio gwerth prosiectau ynni adnewyddadwy i Gymru;

- tensiynau a chyflleoedd sy'n codi o senarios ynni yn y dyfodol;
- ymgysylltu â chymunedau'r Canolbarth ar brosiectau ynni adnewyddadwy.

**30.** Dyfarnodd y Comisiwn gontractau allanol i waith ymchwil gael ei wneud ar y meysydd uchod. Defnyddiwyd canfyddiadau'r gwaith ymchwil i lywio adroddiad y Comisiwn a chawsant eu hategu gan ymgysylltiad y Comisiwn â rhanddeiliaid.

**31.** Yn dilyn ei waith, gwnaeth y Comisiwn [11 o argymhellion i Lywodraeth Cymru](#) gyda'r nod o gyflymu'r defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws Cymru.

**32.** Yn ystod y sesiwn graffu ddiweddaraf, ceisiodd y Pwyllgor archwilio sut y mae argymhellion y Comisiwn yn mynd ymhellach na'r rhai a gododd o bapur Llywodraeth Cymru, sef [Gwaith ymchwil manwl ynni adnewyddadwy](#) (Rhagfyr 2021). Tynnodd Dr Baxter sylw at nifer o argymhellion y Comisiwn, gan gynnwys gweledigaeth ar gyfer ynni yng Nghymru hyd at 2050, gyda strategaeth a chynllun gweithredu cysylltiedig; diwygio'r system ar gyfer cynllunio a darparu mynediad at y grid ar gyfer ynni adnewyddadwy; adolygu Rhan L o Reoliadau Adeiladu a hawliau datblygu a ganiateir; a datganoli swyddogaethau Ystad y Goron ar y cyd â chreu Cronfa Cyfoeth Sofran.

**33.** Soniodd Dr Baxter fod argymhelliad y Comisiwn ar gyfer datganoli swyddogaethau Ystad y Goron ychydig fel plannu had. Ychwanegodd fel a ganlyn:

*“The idea behind that is it may not be something that happens tomorrow, but we are looking into the future. Being able to make sure that Wales takes advantage and is able to generate wealth from its own landscape is something that we would highly recommend and would continue to do so.”*

**34.** Esboniodd Dr Clubb fod y Comisiwn wedi bod yn disgwyl i'r Gweinidog Newid Hinsawdd ymateb i'r adroddiad erbyn diwedd mis Ionawr 2024, er na chafwyd ymateb eto. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at y Gweinidog i fynd ar drywydd hyn. Ychwanegodd Dr Clubb fel a ganlyn:

*“my feeling is, perhaps, that [the Welsh Government is] struggling a bit with possibly some of our recommendations, which, for me, is a good thing. If we don't cause challenge and we don't cause people to struggle and perhaps change the way they're thinking, then we're not doing our job properly.”*

## Llifogydd

---

**35.** Mae Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ar gyfer 2022-23 yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith ar lifogydd. Cafodd gwaith paratoi ei wneud yn ystod y cyfnod adrodd "er mwyn canolbwyntio ar y meysydd yn y sector hwn lle y byddai'r Comisiwn yn gwneud yr argymhellion mwyaf ystyrlon." Comisiynwyd ymgynghoriaeth allanol i helpu i ddeall y darlun presennol ac awgrymu meysydd ffocws ar gyfer astudio. O ganlyniad, bydd gwaith cychwynnol y Comisiwn yn canolbwyntio ar bedair ffrwd waith:

- datblygu gweledigaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd;
- archwilio'r opsiynau ar gyfer ymatebion strategol a gofodol cydlynol i reoli llifogydd;
- yr arian a'r adnoddau gweithlu sydd eu hangen;
- mesur a dadansoddi'r problemau cynllunio defnydd tir sy'n gysylltiedig â llifogydd.

**36.** Dywedodd Dr Clubb wrth y Pwyllgor fod gwaith y Pwyllgor ar yr uchod yn cael ei ddatblygu gan ymgynghorwyr ar y cyd â'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae canfyddiadau gwaith ymchwil yn debygol o fod ar gael erbyn haf 2024, gyda disgwyl i adroddiad y Comisiwn ddilyn yn hydref 2024.

**37.** Ceisiodd y Pwyllgor archwilio sut y mae'r Comisiwn yn sicrhau ei fod yn osgoi dyblygu, o ystyried bod gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud ar lifogydd. Esboniodd Dr Clubb fod y Grŵp Cynghori ar Brosiectau yn cynnwys bron pawb sy'n rhan o sefydliadau eraill sydd â buddiant mewn llifogydd, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd wedi cyflwyno adroddiad ar lifogydd yn ddiweddar. Ychwanegodd ei fod yn credu bod y prosiect hwn yn cynnig rhyddid iddynt nad yw ar gael mewn corff cyhoeddus rheoledig i allu dweud pethau neu wthio pethau na fyddent yn gallu gwneud fel arall.

**38.** Wrth sôn am y ffrwd waith cynllunio defnydd tir, esboniodd Dr Clubb y daw hyn yn ôl i'r cwestiwn cylchol ynghylch pam y mae pobl yn cydsynio datblygiadau tai mewn ardaloedd sy'n tueddu i gael llifogydd dim ond i Cyfoeth Naturiol Cymru gael y dasg o sicrhau eu bod yn gallu gwrthsefyll llifogydd. Ychwanegodd ei bod yn hurt bod y cylch hwn yn parhau, a bod mwy fyth o arian cyhoeddus yn cael ei daflu ar ddatblygiadau na ddylai fod yn digwydd.

**39.** Gofynnodd y Pwyllgor a fydd unrhyw un o'r ffrydiau gwaith yn mynd i'r afael â sychder a storio dŵr. Esboniodd Dr Baxter mai ei brosiect blwyddyn tri ar

wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth fyddai fwyaf addas o bosibl i ystyried materion o'r fath.

### **Gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth**

---

**40.** Yn ôl ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23, mae'r Comisiwn wedi dechrau paratoadau ar gyfer ei drydydd prosiect a'r olaf, "drwy edrych ar y ffordd y mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn peri risg i seilwaith allweddol a'r ffordd rydym yn cyfathrebu â chymunedau y mae eu bodolaeth, felly, dan fygythiad".

**41.** Fel gyda'i brosiectau eraill, mae'r Comisiwn yn defnyddio ymgynghorwyr i helpu i gwmpasu'r materion a nodi blaenoriaethau gwaith ymchwil. Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth yn ceisio barn y cyhoedd, sefydliadau a rhanddeiliaid i helpu i lywio ei waith. Daeth yr alwad am dystiolaeth i ben ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Comisiwn wrthi'n dadansoddi ymatebion er mwyn datblygu ei gyfnod ymchwil.

**42.** Dywedodd Dr Clubb y byddai'r prosiect yn cynnwys cymunedau a fyddai'n wynebu'r perygl mwyaf, felly ardaloedd arfordirol isel. Ychwanegodd mai dyna'r prosiect mwyaf diddorol a'r un anoddaf yn ei farn ef, a dyna pam y mae tipyn o waith yn digwydd ar hyn o bryd i baratoi at hynny.

**43.** Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno adroddiad yn 2025 a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar helpu cyrff cyhoeddus i ymgysylltu'n well a chynnwys cymunedau wrth ymateb i'r bygythiadau i seilwaith o effeithiau'r hinsawdd.

### **Perthynas â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU**

**44.** Tynnodd adroddiad cyntaf y Pwyllgor ar y Comisiwn sylw at bwysigrwydd parhau i ymgysylltu â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU (Comisiwn y DU). Yn ystod y sesiwn graffu ddiweddaraf, edrychodd y Pwyllgor ar y berthynas barhaus rhwng y ddau Gomisiwn. Cyfeiriodd Dr Baxter at y berthynas fel un dda iawn a dywedodd ei bod yn cyfarfod â Chomisiwn y DU bob chwarter.

**45.** Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Comisiwn wedi bod yn rhan o Ail Asesiad Seilwaith Cenedlaethol Comisiwn y DU (Hydref 2023).<sup>2</sup> Esboniodd Dr Baxter fod gan y Comisiwn y cyfle i ymateb i ymgynghoriadau ac adroddiadau Comisiwn y DU

---

<sup>2</sup> Mae'n ofynnol i Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU gynnal asesiad cyffredinol o ofynion seilwaith y DU unwaith bob pum mlynedd. Cyhoeddwyd ei ail asesiad ym mis Hydref 2023 ac mae'n gwneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth y DU.

yn yr un modd â sefydliadau eraill. Ychwanegodd ei fod yn bendant wedi cael rhybudd ynghylch yr hyn a oedd yn yr ail asesiad seilwaith.

**46.** Dywedodd Dr Baxter wrth y Pwyllgor nad yw asesiad seilwaith cenedlaethol yn cael ei wneud yng Nghymru. Ychwanegodd nad yw hynny'n golygu ei fod o reidrwydd yn rhywbeth y dylid ei wneud, ond ei fod yn opsiwn i'w ystyried hefyd. Aeth ymlaen i dynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng y Comisiynau o ran eu maint a'u rolau:

*“The National Infrastructure Commission for the UK is different to the one in Wales in that it has a staff of around 50 people who are looking at making suggestions as to what infrastructure should be, and they don't necessarily do it in the same long-term way that we do, so... their work is quite specific in what they do, which is very different to the work that we do.”*

## **Gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd a chodi'r proffil cyhoeddus**

**47.** Yn ystod gwaith craffu blaenorol ar y Comisiwn, dywedodd Dr Clubb ei fod yn bwriadu gwella ymgysylltiad y Comisiwn â phobl ifanc fel y gall, erbyn diwedd ei gyfnod presennol, arddangos a rhannu arfer da. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y mater hwn yn ei sesiwn graffu ddiweddaraf. Dywedodd Dr Clubb fod y Comisiwn eisoes yn defnyddio nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol, a'i fod yn cynhyrchu fideos a blogiau, i annog ymgysylltiad â phobl ifanc. Esboniodd fel y ganlyn:

*“...gyda'r budget a'r amser sydd gennym ni, rŷn ni'n gwneud cystal ag y gallwn ni... Does dim lot mwy y gallwn ni ei wneud fel unigolion neu gomisiwn achos dim ond un person llawn amser equivalent yw'r holl gomisiwn.”*

**48.** Gofynnodd y Pwyllgor i Dr Clubb am ei fyfyrddodau ar y nifer isel o ymatebion (15) i [arolwg mis Mai 2023](#) y Comisiwn, a oedd yn ceisio barn am ganfyddiad y cyhoedd o'r Comisiwn. Esboniodd Dr Clubb fel a ganlyn:

*“We're not central to most people's lives, I think it's fair to say...It's a bit of a niche topic. Our profile is still building. I would anticipate and hope that we get significantly more than 15 responses this year. There were already indications of which of our key performance indicators, if you like, we were succeeding on from those 15 responses, but I would hope that we'll get a*

*better response this year, and I think that's almost inevitable, if our profile keeps developing."*

**49.** Tynnodd Dr Clubb sylw bod nifer y bobl sy'n mynd i wefan y Comisiwn yn cynyddu bob blwyddyn, gydag oddeutu 7,000 "dros y flwyddyn ddiwethaf".

## Ein barn ni

Mae'r Comisiwn wedi cael ail flwyddyn gynhyrchiol. Mae wedi cyhoeddi ei adroddiad ar ynni adnewyddadwy; gwneud cynnydd amlwg tuag at ei waith ar lifogydd a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth; cynnal ystod o ddigwyddiadau rhanddeiliaid; cwblhau sawl 'taith astudio'; a gwneud gwaith ar amrywiaeth o faterion cyfoes.

### Ynni adnewyddadwy

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad cyntaf, sef [Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050](#). Rydym yn falch o weld bod nifer o argymhellion y Comisiwn yn cyd-fynd â'r rhai a wnaed gan y Pwyllgor hwn yn ein hadroddiadau ar [ynnï adnewyddadwy](#) (Hydref 2022) a [pholisïau rheoli morol](#) (Chwefror 2022). Er enghraifft, datganoli swyddogaethau Ystad y Goron.

Mae argymhellion y Comisiwn ar gyfer adolygu Rhan L o'r Rheoliadau Adeiladu (Rhan L) a hawliau datblygu a ganiateir yn cyd-fynd â'r rhai a wnaed gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei [Adroddiad Cynnydd: Lleihau allyriadau yng Nghymru](#) (Mehefin 2023). Cafwyd ymateb clae'r i argymhellion Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd gan Lywodraeth Cymru. Bydd gennym ddiddordeb mewn gweld a yw'r Comisiwn wedi llwyddo i berswadio Llywodraeth Cymru o werth yr adolygiadau hyn yng nghyd-destun cynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy.

Mae cylch gorchwyl y Comisiwn yn nodi proses glir i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiadau'r Comisiwn, ac rydym yn croesawu hynny. Fodd bynnag, mae'r amserlen bresennol ar gyfer ymatebion (o fewn 6 mis a hyd at 12 mis) yn hwy na'r hyn sy'n angenrheidiol neu'n rhesymol yn ein barn ni. Credwn y byddai amserlen fyrrach yn briodol ar gyfer ymatebion i adroddiadau'r Comisiwn, er ein bod yn derbyn y gall fod angen mwy o amser ar gyfer ymatebion manwl mewn rhai achosion.

Yn achos adroddiad ynni adnewyddadwy'r Comisiwn, ymrwymodd y Gweinidog i ymateb erbyn diwedd mis Ionawr 2024 (h.y. o fewn 3 mis i'w gyhoeddi). Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ni chafwyd ymateb. Mae hyn yn siomedig. Fel

y nododd Dr Clubb, gallai'r oedi yn yr ymateb fod yn adlewyrchiad o natur heriol yr argymhellion. Yn yr un modd, gallai fod oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o flaenoriaeth i waith y Comisiwn, a fyddai'n destun gofid.

Byddwn yn awyddus i wneud gwaith dilynol ar faint o argymhellion sy'n cael eu derbyn ac ar y cynnydd tuag at eu gweithredu yn ystod ein sesiwn graffu flynyddol nesaf gyda'r Comisiwn.

### **Llifogydd**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu adolygiadau ac adroddiadau amrywiol ar ddull tymor hir Cymru o reoli llifogydd, gan gynnwys gan y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Gallai osgoi dyblygu a sicrhau bod gwaith y Comisiwn yn ychwanegu gwerth, felly, fod yn her.

Clywsom fod y Comisiwn yn ceisio canolbwyntio ei waith ar y meysydd lle y byddai'n "gwneud yr argymhellion mwyaf ystyrion". Rydym yn disgwyl yn eiddgar cyhoeddi adroddiad ac argymhellion y Comisiwn.

### **Gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth**

Rydym yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Comisiwn wrth baratoi at ei brosiect ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth. Roedd yn galonogol i ni glywed y gallai'r gwaith hwn fod yn addas i ystyried sychder a storio dŵr. Gofynnwn i'r Comisiwn fyfyrion ar sut y gellid ymgorffori'r materion hyn yng nghyfnod ymchwil ei waith, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

Nodwn fod Adroddiad Cynnydd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd: Lleihau allyriadau yng Nghymru (Mehefin 2023) yn cynnwys argymhellion ar barodrwydd cymunedol a'r ymateb i newid hinsawdd. Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed a yw'r Comisiwn wedi ymgysylltu, neu'n bwriadu ymgysylltu, â Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd yn ei waith ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth. Credwn ei bod yn werth ceisio cynrychiolaeth Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ar y Bwrdd Cynghori ar Brosiectau, a fydd yn goruchwyllo'r gwaith hwn. Hoffem i'r Comisiwn edrych ar y mater hwn.

### **Perthynas â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU**

Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad parhaus rhwng y Comisiwn a Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU (Comisiwn y DU).

Nodwn fod Comisiwn y DU wedi cyhoeddi ei Ail Asesiad Seilwaith Cenedlaethol yn ddiweddar. Mae'r Asesiad yn cwmpasu'r holl sectorau seilwaith economaidd, gan gynnwys y rhai digidol ac ynni, sy'n feysydd a gedwir yn ôl neu a gedwir yn ôl yn bennaf, ac mae'n edrych ar anghenion seilwaith dros 30 mlynedd. Mae'r dystiolaeth a gawsom gan Dr Baxter yn awgrymu na wnaeth y Comisiwn ymgysylltu'n rhagweithiol ag Asesiad Comisiwn y DU. Credwn fod hwn yn gyfle a gollwyd. Byddai'r Comisiwn wedi bod mewn sefyllfa dda i helpu i sicrhau bod anghenion seilwaith Cymru yn y sectorau digidol ac ynni yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn yr Asesiad.

Nid yw'n glir pam y dewisodd Llywodraeth Cymru beidio â gofyn i'r Comisiwn gynnal asesiad seilwaith cenedlaethol. O ystyried y cyfyngiadau y mae'r Comisiwn presennol yn gweithredu ynddynt, byddai'n afresymol disgwyl iddo wneud hyn. Fodd bynnag, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwerth asesiad cyffredinol fel rhan o'i adolygiad cynhwysfawr o'r Comisiwn.

### **Gwella ymgysylltiad y cyhoedd**

Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan y Comisiwn i wella ymgysylltiad â'r cyhoedd, gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc, yn ystod y cyfnod adrodd. Er gwaethaf ymdrechion, mae'n ymddangos bod y cynnydd yn araf, fel y dangosir gan y gyfradd ymateb isel i arolwg y Comisiwn ym mis Mai 2023.

Nodwn awgrym Dr Clubb bod seilwaith yn bwnc arbenigol, a allai esbonio'r cynnydd araf. Rydym yn cydnabod bod codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r Comisiwn yn ategol i'w waith arall. Fodd bynnag, byddem yn annog y Comisiwn i barhau â'i ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd dros y flwyddyn i ddod.

### **Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru:

- ymateb i adroddiad y Comisiwn, sef Paratoi Cymru ar gyfer Ynni Adnewyddadwy 2050, fel blaenoriaeth,
- esbonio pam na chyflawnodd ei hymrwymiad i ddarparu ymateb erbyn diwedd mis Ionawr 2024.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei hamserlen ar gyfer ymateb i adroddiadau'r Comisiwn. Dylai ystyried mabwysiadu amser ymateb rhwng 6 wythnos a 3 mis, fel ei fod yn cyd-fynd yn well â'r amser ymateb ar gyfer adroddiadau gan bwyllgorau'r Senedd ac Aseswr Diogelu'r Amgylchedd Annibynnol Cymru.



**Argymhelliad 7.** Dylai'r Comisiwn ystyried a ellid ymgorffori draenio a storio dŵr, a sut y gellid gwneud hynny, yng ngham ymchwil ei waith ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth. Dylai gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y canlyniad wrth ymateb i'n hadroddiad.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Comisiwn:

- egluro a yw'n ymgysylltu â Phwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd gyda'i waith, yn enwedig ei brosiect blwyddyn tri ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth,
- ceisio cynrychiolaeth Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ar ei Fwrdd Cynghori ar Brosiectau ar wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a risg i fodolaeth.

**Argymhelliad 9.** Fel rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o statws, cylch gwaith ac amcanion y Comisiwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes gwerth ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal asesiad seilwaith cenedlaethol (un tebyg i'r asesiadau a gynhaliwyd gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU).